



## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant Tregolwyn, Y Bont-faen. CF71 7NL

### **HYSBYSIAD STATUDOL I GYNYDDU CAPASITI YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU DEWI SANT O 140 O LEOEDD I 210 O LEOEDD O FIS MEDI 2021 YMLAEN.**

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag adrannau 42(2) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod y corff llywodraethu, wedi ymgynghori â'r personau angenrheidiol, yn cynnig gwneud newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant trwy:

Cynyddu capasiti'r ysgol ar gyfer plant o oedran statudol, o 140 lle i 210 lle (paragraff 10 Atodlen 2 i'r 'Ddeddf')

Ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Saesneg a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg yw'r ysgol.

Cynhaliodd y corff llywodraethu ymgynghoriad cyn penderfynu ar gyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ynghyd ag ymatebion y cynigiwr ar gael i'w gweld ar wefan yr ysgol a Chyngor Bro Morgannwg yn:

[www.stdavidscwprimaryschool.co.uk](http://www.stdavidscwprimaryschool.co.uk)

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Expanding-St-Davids-CIW-Primary.aspx>

Cynigir rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi 2021. Bydd yr ysgol yn parhau i fod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Bydd y cynnig yn arwain at gynnig yn nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol o 20 i 30. 30 fydd nifer y disgyblion a dderbynnir i'r dosbarth derbyn yn 4/5 oed yn y flwydd yn ysgol gyntaf. 48 disgybl rhan amser fydd y nifer derbyn ar gyfer disgyblion oedran meithrin yn yr ystod oedran 3 i 4 yn yr ysgol yn y flwyddyn ysgol gyntaf. Nid yw trefniadau derbyn yn galluogi dewis yn ôl gallu (bandio disgyblion). Ym mis Ionawr 2019, roedd 130 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol ar gofrestr yr ysgol. Bydd capasiti'r ysgol ar gyfer plant o oedran ysgol statudol yn cynyddu o 140 lle i 210 lle.

Mae trefniadau Teithio gan Ddysgwyr Cymru Gyfan<sup>1</sup> yn cynnig cymhwysedd am drafndiaeth ysgol os yw disgyblion yn byw'n fwy na phellter cerdded o'u hysgol dalgylch


<sup>1</sup> Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Theithio gan Ddysgwyr – Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014

agosaf neu ddynodedig. Diffinnir pellter cerdded yn ddwy filltir neu'n fwy ar gyfer disgyblion oedran cynradd a thair milltir neu'n fwy ar gyfer disgyblion oedran uwchradd ar hyd y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Mae Bro Morgannwg yn cynnig trafndiaeth yn unol â'r uchod. Ni effeithir ar drefniadau, cymhwysedd na hygyrchedd trafndiaeth ysgol gan y cynnig hwn.

Yn unol ag adran 49 o'r 'Ddeddf', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion sef dydd Llun 27 Mai.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn, Y Bont-faen, CF71 7NL neu dros e-bost i: [stdavidsps@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:stdavidsps@valeofglamorgan.gov.uk)

Llofnod:



Byron Davies  
Cadeirydd y Llywodraethwyr  
29 Ebrill 2019

## **NODYN ESBONIADOL – NID YW HYN YN FFURFIO RHAN O'R HYSBYSIAD STATUDOL**

Mae'r corff llywodraethu'n cynnig ymestyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 lle o 210 lle o fis Medi 2021 ymlaen.

Gwneir y cynnig dan adran 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 y cyfeirir ato fel Addasiad a Reoleiddir.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Bydd yr ysgol yn cynnig 48 lle meithrin rhan amser, a 210 lle cynradd.

Gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol, yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru, mewn codi adeilad newydd i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ar y safle cyfredol. Amcanbris y project yw £4.183 miliwn.